Cartrefi Cymunedol Cymru

Community Housing

Siarcod Benthyca Diegwyddor yn Targedu Tenantiaid Bregus

Datganiad i'r wasg

Dan embargo hyd 00:01 4 Tachwedd

Caiff ymgyrch gref yn y cyfryngau yn cynghori tenantiaid tai cymdeithasol i beidio 'cael eu brathu' gan siarcod benthyca ei lansio heddiw gan gorff aelodaeth cymdeithasau tai Cymru.

Credir fod dros 15,000 o gartrefi yn benthyca arian gan siarcod benthyca, a mae Cartrefi Cymunedol yn awyddus i godi ymwybyddiaeth o faint problem siarcod benthyca ac i addysgu tenantiaid y gall benthyca hyd yn oed swm bychan o arian olygu y bydd yn rhaid iddynt dalu miloedd o bunnoedd mewn llog.

Bydd yr ymgyrch, a lansir yn y Senedd ym Mae Caerdydd, yn cynnwys hysbysebion teledu emosiynol a phosteri ar ochrau bysus yn annog tenantiaid i osgoi benthyca gan siarcod benthyca a'u hannog i geisio ffyrdd amgen o gael mynediad i gredyd.

Dywedodd Nick Bennett, Prif Weithredydd Cartrefi Cymunedol: "Caiff tua 60-70% o denantiaid tai cymdeithasol eu hallgau'n ariannol sy'n golygu nad oes ganddynt fynediad i gyfrifon banc, cyngor ar arian na chredyd fforddiadwy. Bydd unigolion gyda hanes gwael o gredyd yn ei chael yn anodd benthyca arian ar gyfraddau rhesymol ac mae rhai benthycwyr sy'n awyddus i osgoi risg hyd yn oed yn gwrthod rhoi credyd. Bu nifer o achosion llys a gafodd lawer o sylw yn y cyfryngau yn ddiweddar am siarcod benthyca didrwydded, ond er y bydd y sylw yn y cyfryngau a beirniadu'r benthycwyr diegwyddor hyn yn pylu, mae'r amgylchiadau sy'n gyrru unigolion i ddefnyddio'r siarcod benthyca hyn yn parhau."

Gall cael eu hallgau o bob math o gredyd cyfreithiol orfodi pobl i ymwneud gyda'r benthycwyr arian anghyfreithiol hyn, neu siarcod benthyca. Gan nad oes gan fenthycwyr arian anghyfreithiol ddulliau cyfreithiol i'w defnyddio i adennill dyledion, maent yn aml yn defnyddio trais a braw, a all fod yn drychinebus i gymunedau yn ogystal ag i'r unigolion sydd mewn llawer mwy o risg o golli eu cartrefi oherwydd yr ad-daliadau afresymol.

Dywed Uned Benthyca Arian Anghyfreithiol Cymru, a sefydlwyd yn 2008 i drin problem benthyca arian anghyfreithiol, y gwelodd landlordiaid cymdeithasol ostyngiad mewn ôl-ddyledion gyda phobl unwaith eto yn medru talu eu rhenti mewn ardaloedd lle bu'r Uned yn llwyddiannus yn cael gwared â siarcod benthyca. Mae'r Uned, a gaiff ei rhedeg gan ddeuddeg swyddog safonau masnach gyda chysylltiadau agos i'r heddlu, wedi arestio 36 o siarcod benthyca ac wedi dynodi tua 700 o bobl a ddioddefodd oherwydd siarcod benthyca yng Nghymru hyd yma. Nid oes neb yn gwybod yn union faint o siarcod benthyca sy'n gweithredu o amgylch y wlad; wedi'r cyfan, mae'n weithgaredd troseddol ac amcangyfrifir fod tua 15,000 o bobl yn eu defnyddio ac nid oes neb yn amau y bydd y nifer hwn yn cynyddu wrth i'r dirwasgiad barhau i frathu.

Ychwanegodd Steve Tooby, Pennaeth Uned Benthyca Arian Anghyfreithiol Cymru: "Rydym yn ddiweddar wedi gweld cynnydd yn nifer y galwadau gan bobl yn sôn am siarcod benthyca yn targedu pobl fregus yn ein cymunedau. Mae siarcod benthyca yn aml yn bygwth a brawychu pobl sydd wedi benthyca ganddynt. Yn yr achosion y clywsom amdanynt, rydym yn wirioneddol yn gwneud gwahaniaeth, yn arestio'r drwgweithredwyr ac yn helpu i gefnogi'r bobl a ddioddefodd o'u herwydd. Cofiwch fod y ddyled i siarc benthyca yn un anghyfreithlon ac nad yw'n rhaid ei thalu. Medrwn helpu, a byddwn yn annog unrhyw un sy'n dod i gysylltiad â siarc benthyca i ffonio ein rhif ffôn arbennig. Medrwn sicrhau cyfrinachedd."

Nid dadfeddiannu drwy ôl-ddyledion rhent yw'r unig ffordd y gall rhywun a fenthycodd arian gan siarc benthyca golli eu cartref; yn aml caiff dioddefwyr eu gorfodi i ffoi'n gyflym o'r ardal, gan adael eu cartref, neu gael eu gorfodi i symud i ddiogelu eu teuluoedd.

Er bod yr ymgyrch yn canolbwyntio ar siarcod benthyca, mae'r sector cymdeithasau tai hefyd yn credu fod benthycwyr carreg drws cyfreithiol yn manteisio ar deuluoedd bregus drwy gynnig benthyciadau gyda chyfraddau llog uchel tu hwnt. Mae galw am y gwasanaethau gan fod mynediad rhwydd i gredyd prif ffrwd wedi dod i ben, pobl wedi colli eu swyddi, neu wedi gweld gostyngiad yn eu cyflogau.

Amcangyfrifir fod tua 150,000 o gartrefi yng Nghymru â dyledion i fenthywyr carreg drws a chydnabyddir y caiff credyd ei gasglu o fwy o gartrefi yng Nghymru na'r cyfartaledd.

Ychwanegodd Nick Bennett: "A yw benthycwyr carreg drws yn cael eu hystyried yn siarcod benthyca? Mae'r Oxford English Dictionary yn diffinio siarc benthyca fel benthycwr arian sy'n codi crocbris o log. Am fenthyciad o £500 dros 23 wythnos gyda'r Provident, byddai'n rhaid ad-dalu cyfanswm o £747.20, sydd yn 545.2% o gyfradd ganrannol flynyddol. Y gwahaniaeth rhwng benthycwyr carreg drws a siarcod benthyca fel y gwyddom amdanynt yw bod gan fenthycwyr carreg

drws drwydded ac yn gyfreithlon tra nad oes gan siarcod benthyca drwydded ac yn anghyfreithlon.”

Yn y cyfnod cyn y Nadolig, mae Cartrefi Cymunedol yn annog tenantiaid i osgoi benthyca arian gan siarcod benthyca a benthycwyr carreg drws ac yn eu hannog i ganfod ffyrdd eraill o gael mynediad i gredyd. Bu’r sector cymdeithasau tai yn ganolog wrth greu Sefydliad Cyllid Datblygu Cymunedol newydd yng Nghymru. Rhan-ariennir y Sefydliad gan 18 o aelodau Cartrefi CHC a gyfrannodd dros £458,000 i’r prosiect, Social Finance sydd wedi buddsoddi £1.2 miliwn o gyfalaf benthyg a chyfraniad o £620,000 o gronfa dwf yr Adran Gwaith a Phensiynau. Nod Money Line Cymru yw rhoi arian, cyngor a chredyd i bobl sydd fel arfer yn cael eu gwrthod gan fenthycwyr prif ffrwd. Yn ystod y mis nesaf, caiff pum siop beilot eu hagor ym Mhontypridd, Caerdydd, Cwmbran, Casnewydd a Phen-y-bont ar Ogwr a fydd yn rhoi benthyciadau a chyngor ariannol i gwsmeriaid a sefydlu cyfrifon banc sylfaenol iddynt.

Ychwanegodd Dr Brian Gibbons, Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol: "Rwy'n falch iawn i gefnogi'r ymgyrch. Rwy'n ymwybodol iawn y bydd problemau benthyca arian anghyfreithlon yn waeth yn yr hinsawdd ariannol bresennol ac rwy'n ymrwymedig i wneud popeth a fedraf i fynd i'r afael â'r siarcod benthyca mewn partneriaeth gydag Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru, yr heddlu a sefydliadau trydydd sector fel Cartrefi Cymunedol. Dim ond drwy gydweithio y medrwn fynd i'r afael â phroblemau fel hyn, felly rwy'n hynod falch fod yr ymgyrch yma'n cael ei lansio heddiw."

Mae gwybodaeth bellach ar yr ymgyrch a manylion sefydliadau a all helpu ar wefan Cartrefi Cymunedol, chcymru.org.uk. Rhif ffôn arbennig yr Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon, sydd ar agor 24 awr y dydd, yw 0300 123 33 11.

- DIWEDD -

For Further information contact Edwina O’Hart on 075 11 694450